*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1314

## Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2005

**Diwrnodau penodedig**

**3.** 15 Gorffennaf 2005 yw'r diwrnod a bennwyd i adran 57 o'r Ddeddf (creu, cau a gwyro priffyrdd) ddod i rym i'r graddau y mae'n rhoi effaith i ddarpariaethau canlynol Atodlen 6 i'r Ddeddf—

(a) i'r graddau y mae'n ymwneud â phriffordd a grewyd o ganlyniad i orchymyn gwyro arbennig y mae paragraff (c) o'r erthygl hon yn gymwys, paragraff 5 (priffyrdd sy'n cael eu cynnal a'u cadw ar draul y cyhoedd),

(b) i'r graddau y mae'n mewnosod adran 118B yn Neddf 1980 at ddibenion paragraff (1)(b) o'r adran honno, paragraff 8 (cau priffyrdd penodol sy'n croesi tir sy'n cael ei feddiannu at ddibenion ysgol),

(c) i'r graddau y mae'n mewnosod adran 119B yn Neddf 1980 at ddibenion paragraff (1)(b) o'r adran honno, paragraff 12 (gwyro priffyrdd penodol sy'n croesi tir sy'n cael ei feddiannu at ddibenion ysgol), ac

(ch) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaeth a gafodd ei dwyn i rym gan yr erthygl hon—

(i) paragraff 13(1) i (5) (ac eithrio (5)(e)) a (7) i (9) (arfer pwerau gwneud gorchmynion diddymu neu wyro llwybrau cyhoeddus),

(ii) i'r graddau nad yw'n cael ei ddwyn i rym gan erthygl 2, paragraff 14 (darpariaethau atodol),

(iii) paragraff 17 (pwerau mynd i mewn),

(iv) ym mharagraff 18 (rheoliadau, cynlluniau a gorchmynion)—

(aa) is-baragraff (a), i'r graddau ei fod, yn adran 325(1)(d) o Ddeddf 1980, yn mewnosod cyfeiriadau at adrannau 118B(4) a 119B(4), a

(bb) is-baragraff (b),

(v) paragraff 19 (dirymu ac amrywio cynlluniau a gorchmynion), i'r graddau ei fod, yn adran 326(5) o Ddeddf 1980, yn mewnosod cyfeiriadau at orchymyn diddymu arbennig a gorchymyn gwyro arbennig,

(vi) paragraff 20(d) ac (e) (dehongli),

(vii) paragraff 21 (arbedion o ran cyfarpar telathrebu), i'r graddau ei fod, yn adran 334(2) o Ddeddf 1980, yn mewnosod cyfeiriadau at orchymyn diddymu arbennig a gorchymyn gwyro arbennig,

(viii) ym mharagraff 23 (darpariaethau o ran gwneud, cadarnhau etc. gorchmynion)—

(aa) is-baragraff (1),

(bb) is-baragraff (2)(a) ac, i'r graddau ei fod, ym mharagraff 1(1) a (2) o Atodlen 6 i Ddeddf 1980, yn mewnosod y cyfeiriad at orchymyn gwyro arbennig, is-baragraff (2)(b),

(cc) is-baragraff (3)(a) ac, i'r graddau ei fod, ym mharagraff 1(3A) o Atodlen 6 i Ddeddf 1980, yn mewnosod y cyfeiriad at orchmynion gwyro arbennig, is-baragraff (3)(b),

(dd) is-baragraff (4)(a) ac, i'r graddau ei fod, ym mharagraff 1(3B) o Atodlen 6 i Ddeddf 1980, yn mewnosod y cyfeiriad at orchmynion gwyro arbennig, is-baragraff (4)(b),

(ee) i'r graddau ei fod, ym mharagraff 2(2) a (3) o Atodlen 6 i Ddeddf 1980, yn mewnosod y cyfeiriad at orchymyn gwyro arbennig, is-baragraff (5),

(ff) ac eithrio i'r graddau y mae'n mewnosod paragraff 2A(1)(b) o Atodlen 6 yn Neddf 1980, is-baragraff (7),

(gg) is-baragraff (8), a

(hh) is-baragraff (9)(a) ac, i'r graddau ei fod, ym mharagraff 3(2) o Atodlen 6 i Ddeddf 1980, yn mewnosod y cyfeiriad at orchymyn gwyro arbennig, is-baragraff (9)(b).